Trivallis.

# Adroddiad Gwirfoddol ar Anabledd, Iechyd Meddwl a Lles 2025



hyderus o ran anabledd
ARWEINYDD

Dyddiad Cipio Data: 12 Tachwedd 2025

# Cyflwyniad

Yn Trivallis, rydyn ni wedi ymrwymo i greu gweithle lle gall pawb ffynnu.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, rydyn ni'n falch o rannu ein hadroddiad gwirfoddol ar Anabledd, Iechyd Meddwl a Lles 2025.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ein hymroddiad i fod yn agored a sicrhau gwelliannau parhaus, ac mae'n dangos sut rydyn ni'n byw ein gwerthoedd o fod yn garedig, yn ddibynadwy, yn gynhwysol ac yn flaengar.

Rydyn ni'n cydnabod bod anabledd, iechyd meddwl a lles yn ganolog i brofiad llawer o gydweithwyr, cwsmeriaid a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Trwy adrodd yn wirfoddol, ein nod nid yn unig yw dal ein hunain i gyfrif ond hefyd i gyfrannu at sgyrsiau ehangach am gydraddoldeb, cynhwysiant a pherthyn yn y gweithle.

Rydyn ni'n falch o fod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd.

# Amdanom ni

Mae Trivallis yn gymdeithas tai gydfuddiannol gymunedol sy'n eiddo i denantiaid, sy'n darparu cartrefi diogel a fforddiadwy i dros 25,000 o bobl ledled de-ddwyrain Cymru.

Gyda mwy na 470 o gydweithwyr, mae ein cryfder yn ein pobl a'r perthnasoedd rydyn ni'n eu meithrin â'n gilydd, ein tenantiaid a'n cymunedau.

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod pob cydweithiwr ac ymgeisydd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi, ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial a byddwn yn:

- Sicrhau bod ein harferion recriwtio a chyflogaeth yn gynhwysol ac yn hygyrch.
- Cefnogi cydweithwyr sy'n cael anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor i aros yn y gwaith.
- Darparu cyfleoedd i bobl anabl ddatblygu eu gyrfa a chyrraedd eu llawn botensial.
- Herio stigma, rhagfarn a gwahaniaethu a gyrru newid diwylliannol cadarnhaol ar draws ein gweithle.



# Cynnydd yn 24/25

Mae Trivallis yn parhau â'i daith i ddod yn gyflogwr amrywiol, cynhwysol a chydnabyddedig o ddewis.

Yn 2025, cymerwyd camau sylweddol gennym, gyda data'n dangos cynnydd yn nifer y cydweithwyr sy'n uniaethu fel anabl a gostyngiad yn y rhai sy'n dewis peidio â datgan - gan nodi mwy o ymddiriedaeth a diogelwch seicolegol.

Mae rhywfaint o'r gwaith rydyn ni wedi'i gyflawni yn ystod y 12-18 mis diwethaf yn cynnwys:

## Recriwtio a Dethol

Rydyn ni wedi cryfhau ein recriwtio cynhwysol drwy:

**Polisïau ac Arferion Cynhwysol**

- Diweddaru ein Polisi Recriwtio a Dethol ar gyfer hygyrchedd
- Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar brosesau recriwtio
- Gwarantu cyfweliadau i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni meini prawf hanfodol
- Cynnig addasiadau gydol y daith recriwtio
- Hyfforddi rheolwyr llogi ar arferion cynhwysol ac addasiadau rhesymol

**Profiad Ymgeiswyr Hygyrch a Chynhwysol**

- Arddangos ein bathodyn Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd ar draws deunyddiau recriwtio
- Ailgynllunio hysbysebion swyddi i adlewyrchu gwerthoedd cynhwysol
- Creu canllawiau sy'n gyfeillgar i ymgeiswyr ar gyfer ceisiadau a chyfweliadau
- Lansio System Olrhain Ymgeiswyr hygyrch (ATS)

**Allgymorth a Phartneriaethau**

- Ehangu platfformau hysbysebu i gyrraedd ymgeiswyr anabl
- Meithrin partneriaethau â sefydliadau ar gyfer recriwtio wedi'i dargedu
- Ail-lansio ein rhaglen Prentisiaethau i gefnogi talent ifanc

**Cydnabyddiaeth ac Achredu**

- Ennill achrediad Arian gyda Diverse Cymru

## Cadw a Chefnogaeth

Rydyn ni'n adeiladu gweithle lle gall pawb ffynnu trwy:

**Polisïau ac Arferion Cynhwysol**

- Ymwreiddio polisïau teg, cynhwysol ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Darparu hyfforddiant ar amrywiaeth a chynhwysiant i bob cydweithiwr
- Herio gwahaniaethu o bob math
- Ceisio adborth gan gydweithwyr a thenantiaid amrywiol

# Cynnydd yn 24/25 *Parhad...*

**Iechyd Meddwl a Lles**

- Llofnodi Ymrwymiad Iechyd Meddwl yn y Gwaith MIND
- Lansio Polisi Addasiadau Rhesymol
- Defnyddio Pasbortau Iechyd i gefnogi anghenion unigol
- Partneriaeth ag Iechyd Galwedigaethol ar gyfer cymorth wedi'i deilwra
- Hyrwyddo atgyfeiriadau Mynediad at Waith a gweithredu ar argymhellion
- Cynnig adnoddau gweithio ac iechyd meddwl hyblyg
- Meithrin diogelwch seicolegol a deialog agored
- Cynnal digwyddiadau lles fel ein Harddangosfa Iechyd Meddwl
- Ail-lansio ein grŵp lles, Thrive

**Dysgu, Datblygu a Hygyrchedd**

- Cynnal adeiladau hygyrch
- Darparu addasiadau ar draws pob rhaglen ddysgu
- Cefnogi cynlluniau dychwelyd i'r gwaith gyda dulliau wedi'u teilwra
- Cynnig sesiynau ymarfer myfyriol ar gyfer rolau sy'n agored i drawma

**Cymuned ac Ymgysylltu**

- Cefnogi mentrau cyflogadwyedd yn y gymuned
- Darparu sianeli adborth lluosog ar gyfer gwelliant parhaus

## Partneriaethau ac Effaith Gymunedol

Rydyn ni wedi ymestyn ein hymrwymiad y tu hwnt i Trivallis trwy:

**Hyrwyddo Gwerthoedd Cynhwysol**

- Annog cyflenwyr a phartneriaid i ddod yn Hyderus o ran Anabledd
- Arddangos y bathodyn Hyderus o ran Anabledd ar draws ein holl ddeunydd cyfathrebu
- Ymgysylltu â sefydliadau lleol i hyrwyddo cynhwysiant

**Cefnogi Cymunedau Ehangach**

- Llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog i gefnogi cyn-filwyr
- Mynychu ffeiriau recriwtio lleol i arddangos ein diwylliant cynhwysol

Caredig Dibynadwy Blaengar Cynhwysol

# Trivallis.

## Data Allweddol ac Ystadegau

**478** Ar hyn o bryd rydyn ni'n cyflogi tua 478 o bobl

**7%** Mae tua 7% ohonyn nhw wedi datgan anabledd/cyflwr iechyd hirdymor

**41** Sesiwn gwnsela a gyrchwyd drwy ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr

**33** Cydweithiwr wedi derbyn cymorth Iechyd Galwedigaethol


**6%** Ymgeisydd wedi datgan anabledd


**95%** cydymffurfiaeth â hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant


## Proffil cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Cydweithwyr Anabl


Mae ein cydweithwyr anabl yn dod ag ystod eang o safbwyntiau a phrofiadau sy'n cyfoethogi ein gweithle.

Mae'r ciplun hwn o gyfansoddiad cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ein poblogaeth o gydweithwyr anabl yn ein helpu i ddeall cynrychiolaeth ar draws gwahanol hunaniaethau. Trwy edrych ar sut mae anabledd yn croestorri ag agweddau eraill ar amrywiaeth, gallwn nodi cyfleoedd i gryfhau cynhwysiant a sicrhau bod pob cydweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi.



# Trivallis. Arolwg Iechyd Meddwl a Lles MIND 2024 (132 Ymateb)

**74%**
fod ganddyn nhw iechyd meddwl gwael

**63%**
wedi cael cynnig trefniadau gweithio hyblyg

**81%**
yn dweud bod eu rheolwr yn gofyn sut maen nhw'n teimlo'n rheolaidd

**67%**
o'r farn bod mynediad at wybodaeth am iechyd meddwl yn hawdd

**59%**
yn teimlo ein bod yn annog trafodaeth am iechyd meddwl

**67%**
yn teimlo bod yr amgylchedd ffisegol yn y gwaith yn cefnogi lles meddyliol

# Iechyd Meddwl a Lles

Mae Trivallis wedi ymrwymo i greu gweithle lle mae iechyd meddwl yn cael ei ddeall, ei gefnogi a'i ymwreiddio mewn ymarfer bob dydd.

Mae ein mentrau - o Addasiadau Rhesymol a Phasbortau Iechyd i ymarferion myfyriol ac arddangosfeydd lles - wedi'u llunio i fynd i'r afael â'r her hon yn uniongyrchol.

## Yr hyn rydyn ni'n ei gynnig

- Mynediad at Raglen Cymorth i Weithwyr sy'n darparu cyngor cyfrinachol, cymorth a sesiynau cwnsela am ddim.
- Cyfeirio at adnoddau allanol ychwanegol fel Case UK a Maximus.
- Gweithdai a digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a herio stigma
- Hyfforddiant ac adnoddau i reolwyr i nodi a chefnogi anghenion iechyd meddwl.
- Sesiynau Ymarfer Myfyriol dan oruchwyliaeth i ddarparu lle diogel i siarad.
- Ôl-drafodaeth ar Ddigwyddiadau Critigol ar ôl profiad trawmatig yn y gweithle



# Edrych ymlaen



Yn 2026 a thu hwnt, byddwn yn canolbwyntio ar:

- Gynyddu cynrychiolaeth pobl anabl ar draws pob lefel o'r sefydliad.
- Parhau i godi ymwybyddiaeth a herio stigma ynghylch anabledd ac iechyd meddwl.
- Ymwreiddio lles yn ddyfnach yn ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio.
- Cryfhau partneriaethau â sefydliadau allanol i rannu arferion gorau.
- Ymgysylltu â mwy o bartneriaid cymunedol fel canolfannau gwaith, colegau ac ysgolion lleol a darparu profiad gwaith a mentrau cyflogadwyedd eraill
- Darparu sesiynau hyfforddi ar bynciau fel anableddau cudd ac ymwybyddiaeth.
- Cynnal ymgyrchoedd cyfathrebu mewnol i godi ymwybyddiaeth a chynyddu cyfraddau datgelu.

# Casgliad

Rydyn ni'n falch o'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud hyd yma, ond credwn nad da lle gellir gwell.

Mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu pwysigrwydd hanfodol meithrin diwylliant yn y gweithle sy'n blaenoriaethu cynhwysiant anabledd, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, a lles cyfannol.

Trwy dryloywder gwirfoddol a myfyrio cydweithredol, rydyn ni wedi nodi cryfderau a meysydd ar gyfer twf — gan gydnabod bod cynnydd ystyrlon yn gofyn am ymrwymiad parhaus, deialog agored, a chefnogaeth strwythurol.

Mae ein taith yn un barhaus, ond gydag atebolrwydd a rennir a gweithredu bwriadol, rydyn ni'n symud yn nes at ddyfodol lle mae hygyrchedd, diogelwch seicolegol, a lles nid yn unig yn ddyheadau - ond yn realiti bob dydd.

Trivallis.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar:

**03000 030 888**

**customerservices@trivallis.co.uk**

Ty Pennant
Mill Street
Pontypridd
CF37 2SW

Mae croeso i chi alw heibio yn ystod ein horiau swyddfa:
Dydd Llun i ddydd Gwener: 9:00 am – 3:00 pm.